

# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus



Mae'r adroddiadau canlynol yn Eitemau Gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor Craffu ac Adfywio Corfforaethol.

- 1 Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-2024.



**PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL AC ADFYWIO EITEM  
GWYBODAETH - 25 AIN MEHEFIN 2024**

**PWNC: ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2023-2024**

**ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, ADDYSG A  
GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1 Er mwyn hysbysu'r aelodau o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023-2024 yn erbyn pedwar maes penodol o waith yr iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.
- 1.2 Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2024, fel sy'n ofynnol gan Safon 158 yr iaith Gymraeg.

**2. CRYNODEB**

- 2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithredu materion yr iaith Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac yn unol â Safon 158.
- 2.2 Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2023-2024 yn cwmpasu pedwar maes allweddol.

<b>Manylion Gofynion i Adrodd</b>	<b>Rhif y Safon (a'r is-gymal)</b>
<p><b>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</b></p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiad â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.</p>	147, 148, 149, 156, 158(2), 162, 164(2), 168(a), 170(2)(d)
<p><b>Sgiliau Iaith Staff</b></p> <p>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151);</p>	170 (2) (a) 151

Manylion Gofynion i Adrodd	Rhif y Safon (a'r is-gymal)
<p><b>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</b></p> <p>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd cyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).</p>	<p>170 (2) (b) 170 (2) (c) 152</p>
<p><b>Recriwtio i Swyddi Gwag</b></p> <p>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</p> <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	<p>170 (2) (ch) 154</p>

- 2.3 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar sefyllfa bresennol y Cyngor mewn perthynas â gofynion statudol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 2.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth ymgorffori trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu gallu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.

### 3. ARGYMHELLION

- 3.1 Argymhellir er gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio i nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol, yn dilyn ei gymeradwyaeth yn Cabinet ar 5 Mehefin 2024, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn y dyddiad terfyn, sef 30 Mehefin.

### 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 4.1 Yn unol â Safon 158 Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor, rhaid i'r Cyngor;
- Llunio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau y mae'n ddyletswydd arnynt i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.
  - Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaid â'r Safonau yr oedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
  - Cyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

### 5. YR ADRODDIAD

- 5.1 Mae'r adroddiad blynyddol yn amlygu'r wybodaeth berfformiad canlynol;

- Ni wnaethom dderbyn dim un cŵyn na dim un ymchwilaid am y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Dyma'r pumed flwyddyn yn olynol i ni beidio â derbyn ymchwilaid gan Comisiynydd y Gymraeg am ddiffyg cydymffurfiaeth.
- Gwnaethom hyrwyddo a dathlu nifer o wahanol weithgareddau Cymraeg yn ystod 2022-2023 gan gynnwys:
  - Diwrnod Shwmae – roedd staff a phreswylwyr cartref preswyl Tŷ Iscoed yn cymryd rhan mewn cwrs Cymraeg
  - Diwrnod Hawliau'r Gymraeg – fe wnaethom hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac annog aelodau o'r cyhoedd i gael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg
- Gwnaethom barhau â'n gwaith yn cefnogi Gyrfa Cymru gyda sgysiau yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Martin Sant, Ysgol Uwchradd Islwyn, a Ysgol Gyfun Sant Cenydd. Cyflwynwyd y sgysiau i Flwyddyn 10 ac 11 ynghylch cyfleoedd gyrfa a phrentisiaethau gyda'r Cyngor, a phwyslais ar ba mor bwysig yw sgiliau Cymraeg i gyflogwyr.
- Drwy'r bartneriaeth o gyd-weithio gyda Gyrfa Cymru ac ysgolion yn y fwrdeistref sirol derbyion enwebiad ac fe gyrhaeddodd y rhestr fer yn y rownd derfynol yng Ngwobrau Partner Gwerthfawr Gyrfa Cymru. Er na wnaethom ennill y wobr, roedd yn gamp fawr i'r Cyngor gael ei gydnabod am y gwaith sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd a bydd yn parhau i'w wneud mewn nifer o ysgolion yn y fwrdeistref sirol.
- Cyfieithodd Tîm Cyfieithu'r Cyngor 2,175,562 o eiriau'r flwyddyn ariannol hon. Mae hynny dros 700,000 o eiriau yn fwy na'r llynedd, diolch i'r capasiti ychwanegol yn y tîm.
- Cynyddodd nifer y staff a gofnodwyd fel rhai sydd â sgiliau Cymraeg o 2,100 i 2,258 yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gyda chyflwyno Archwiliad Sgiliau Iaith Cymraeg ym mis Ebrill, rydym yn gobeithio y byddwn mewn sefyllfa y flwyddyn nesaf i allu fapio a manylu ar bob aelod o staff sydd â sgiliau Cymraeg, a rhoi'r cymorth angenrheidiol iddynt i'w hannog i ddefnyddio'r sgiliau hynny'n hyderus yn y gweithle.
- Cynyddodd nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg eto yn ystod y flwyddyn ariannol hon i 96. Rydym wedi newid y broses o gofrestru ar gyrsiau, sy'n llawer mwy syml. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio llawer mwy gyda meysydd gwasanaeth, yn enwedig y Tîm Cyflogadwyedd, sydd i gyd wedi mynychu cwrs Cymraeg ac yn enghraifft wych o sut i ymgorffori Cymraeg i waith bob dydd.
- O'r 685 swydd newydd a gwag a hysbysebwyd dim ond 9 o'r rhain a hysbysebwyd fel Cymraeg Hanfodol, hysbysebwyd 13 swydd lle roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth eu penodi; 663 swydd yn cael eu hysbysebu fel Cymraeg Dymunol; a 0 lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg.

Mae'r holl swyddi'n cael eu hysbysebu gyda diofyn o'r Gymraeg yn ddymunol o leiaf.

## 5.2 Casgliad

Mae'r adroddiad yn rhoi tystiolaeth o'n cynnydd i hybu'r Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor.

Byddwn yn parhau i weithio gyda meysydd gwasanaeth, a gyda'r data o'r Archwiliad Sgiliau Iaith Gymraeg, cafodd ei wneud ym mis Ebrill 2024, byddwn yn nodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw ofnyion hyfforddiant Cymraeg neu sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â Safonau'r Gymraeg wrth symud ymlaen.

## 6. TYBIAETHAU

6.1 Ni wnaed unrhyw dybiaethau.

## 7. CRYNODEB O'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

7.1 Ymgwymerwyd ag asesiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg llawn ac ymgynghorwyd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd pan gafwyd eu datblygu; felly nid oes asesiad llawn wedi'i wneud ar yr adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r adroddiad yn asesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg ac yn unol â chamau gweithredu cysylltiedig yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a Strategaeth y Gymraeg Bum Mlynedd 2022-2027.

7.2 Mae'r iaith Gymraeg yn thema drawsbynciol o'r Nodau Llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n effeithio ar bob polisi, swyddogaeth a gweithdrefn y Cyngor, gan gwmpasu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd a pholisïau mewnol sy'n cynnwys aelodau staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru sydd â chymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

7.3 Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg fel amcan cydraddoldeb strategol yn ei rinwedd ei hun, gysylltiadau uniongyrchol â nifer o bolisiau a strategaethau cyfredol eraill, o fewn y Cyngor ac o ran gweithio mewn partneriaeth.

7.4 Mae yna hefyd strategaethau neu reoliadau Lywodraeth Cymru y mae gwaith iaith Gymraeg y Cyngor yn cysylltu â nhw, gan gynnwys "Mwy Na Geiriau / More Than Just Words" (Strategaeth Iaith Gymraeg Cenedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol), "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg" (Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru) a Ffyniant i Bawb (**cyllun gweithredu economiadd Llywodraeth Cymru**).

7.5 Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion canlynol y Cynllun Corfforaethol 2023-2028;

- Amcan 1 - Galluogi ein Plant i Lwyddo mewn Addysg
- Amcan 2 - Galluogi ein Preswylwyr i Ffynnu
- Amcan 3 - Galluogi ein Cymunedau i Ffynnu
- Amcan 4 - Galluogi ein Heconomi i Dyfu

7.6 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Nodau Lles fel y'u nodir uchod. Mae hefyd yn gyson â'r pum ffordd o weithio:

- Hirdymor – Sicrhau bod gan staff y sgiliau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog nawr ac yn y dyfodol
- Atal – Bydd gwella gwasanaethau ac uwchsgilio staff yn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u dewis o ran iaith, yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau ac felly'n atal cwynion ac ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Integreiddio – Drwy ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, rydym yn gwneud i bawb deimlo'n gyfartal ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Cydweithio – Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i hyn ac yn cynorthwyo'r

Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg. Ceir rhagor o dystiolaeth o gydweithio â phartneriaid yn Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd.

- Cynnwys - Fel y nodwyd o dan yr adran Cydweithio, mae'n rhaid i ni gynnwys ein partneriaid er mwyn cyflawni'r Strategaeth Iaith Pum Mlynedd a'n helpu i ddarparu gwasanaethau.

## **8. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

8.1 Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn gan fod yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd symud yr agenda yn ei flaen yn golygu goblygiadau ariannol, yn enwedig mewn perthynas â chyfieithu a hyfforddiant iaith Gymraeg i staff.

Y gost i gefnogi staff i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle ar gyfer 2023-2024, sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog y Cyngor o dan y Safonau, oedd £3,661.00.

## **9. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

9.1 Nid oes goblygiadau personél i'r adroddiad hwn, er bod hwn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg fynd rhagddo. Mae hyn yn berthnasol i Adran 6 o Atodiad A, sy'n canolbwyntio ar Recriwtio i Swyddi Gwag.

9.2 Ni chaiff unrhyw swydd ei hysbysebu heb Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg.

## **10. YMGYNGHORIADAU**

10.1 Mae holl ymatebion yr ymgynghoriadau wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad.

## **11. PWERAU STATUDOL**

11.1 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

11.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### **Awdur:**

Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb a'r Gymraeg  
([cullima@caerffili.gov.uk](mailto:cullima@caerffili.gov.uk))

### **Ymgynghorwyr:**

Dave Street, Dirprwy Prif Weithredwr

Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol

Mark S Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd

Gareth Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Pennaeth Gwasanaethau i Blant

Y Cynghorydd Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros Cyllid a Pherfformiad

Y Cynghorydd Philippa Leonard, Hyrwyddwr Cydraddoldeb

Y Cynghorydd Gary Johnston – Cadeirydd Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio

Y Cynghorydd Amanda McConnell – Is-Gadeirydd Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio

Sue Richards, Pennaeth Trawsnewid a Chynllunio a Strategaeth Addysg

Robert Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro

Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl

Stephen Harris, Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151  
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg  
Kathryn Peters, Rheolwr Polisi Corfforaethol

**Papurau Cefndir:**

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 [Dolen - Caerffili - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)
- Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [Dolen](#)
- Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 [Dolen](#)
- Dogfennau Canllaw Amrywiol (*Mae'r rhain ar gael yn electronig er gwybodaeth ar Borthol yr Uned Polisi ac ar dudalennau perthnasol y rhyngwrwyd ar ddolen [www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb](http://www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb)*)

**Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-2024

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-2024

Paratowyd yn unol â gofynion



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

16 Mai 2024

A greener place  
Man gwyrddach





## Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
1. Safonau'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu.....	5
2. Hyrwyddo.....	15
3. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd .....	21
4. Sgiliau Iaith Staff .....	22
5. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg .....	27
6. Recriwtio i Swyddi Gwag.....	29

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.**

**This report is available in English, and in other languages and formats on request.**

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn ar gyfer 2023-2024 yn ymdrin â'r pedwar maes sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ac yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac aelodau staff.

<b>Manylion Gofyniad i Adrodd</b>	<b>Rhif y Safon Perthnasol (<i>ac is-gymal</i>)</b>
<p><b>Cwynion gan aelodau'r cyhoedd</b></p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaid â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.</p>	147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)
<p><b>Sgiliau Iaith Staff</b></p> <p>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151).</p>	170 (2) (a) 151
<p><b>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Gymraeg</b></p> <p>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).</p>	170 (2) (b) 170 (2) (c) 152
<p><b>Recriwtio i swyddi gwag</b></p> <p>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</li> <li>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd</li> <li>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol</li> <li>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</li> </ul> <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154)</p>	170 (2) (ch) 154

Ar 8 Hydref 2020, mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-2024. Mae chwech o'r saith Amcan Cydraddoldeb Strategol, fel y'u rhestrir isod, yn cynnwys goblygiadau'r Gymraeg:

<b>Amcan Cydraddoldeb 1</b>	<b>Cynllunio a Darparu Gwasanaethau</b> – Deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethau
<b>Amcan Cydraddoldeb 2</b>	<b>Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth</b> – Gwella cyfleoedd addysg i bawb
<b>Amcan Cydraddoldeb 3</b>	<b>Cydlyniant Cymunedol</b> – Hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol a chydlynol
<b>Amcan Cydraddoldeb 4</b>	<b>Ymgysylltu Cynhwysol a Chymryd Rhan</b> – Ymgysylltu â thrigolion i'w h i gymryd rhan a lleisio barn wrth gynllunio darpariaeth gwasanaethau
<b>Amcan Cydraddoldeb 5</b>	<b>Y Gymraeg</b> – Sicrhau y gall y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad i wasanaethau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol
<b>Amcan Cydraddoldeb 6</b>	<b>Gweithlu Cynhwysol, Amrywiol a Chyfartal</b> – Creu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn parchu amrywiaeth y cymunedau yn y fwrdeistref sirol

Mae Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a dadleuon ynghylch Safonau'r Gymraeg ers mis Ionawr 2014. Mae nifer o adroddiadau a chyflwyniadau wedi'u cyflwyno er mwyn eu hysbysu'n llawn am welliannau parhaus wrth ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

## 1. Safonau'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu

Ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar 30 Mawrth 2016, rydym wedi datblygu Rhaglen Waith Cydymffurfio i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn unol â'r Safonau, bod staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau a bod ganddynt y sgiliau iaith gofynnol lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r Rhaglen Waith Cydymffurfio wedi'i chrynhai isod:

### Gohebiaeth - Safonau 4, 5 a 7

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â gohebiaeth sy'n gorfod bod yn ddwyieithog os nad ydym yn gwybod dewis iaith neu'n anfon llythyrau at nifer o bobl ynglŷn â'r un pwnc. Rhaid i ni sicrhau bod y papur pennawd hefyd yn cydymffurfio.

#### Camau a gymerwyd:

- TAFLEN FFEITHIAU i staff – Gohebiaeth Gyffredinol
- Llofnodion awtomatig dwyieithog ar e-byst i'r holl staff ar e-bost ynghyd â'r datganiad canlynol:  
**Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.**  
**Correspondence may be in any language or format. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.**
- Templedi pennawd yn eu lle

### Ffôn – Safonau 8, 9, 11, 14, 16, 17, 19, 20, 21 a 22

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sut rydym yn delio â galwadau ffôn a bod cyfarchiad dwyieithog yn cael ei roi. Rhaid i staff feddu ar y sgiliau iaith berthnasol i ddelio â galwadau yn Gymraeg, ac os nad ydynt yn gallu, eu bod yn gwybod pwy yw'r siaradwyr Cymraeg sy'n gallu delio â'r mater, a sut i drosglwyddo galwadau. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i ddarparu'r wybodaeth bwnc-benodol, gellir cysylltu'r alwad â rhywun nad yw'n siarad Cymraeg.

Rhaid i ni ddatgan, pan rydym yn cyhoeddi prif rifau ffôn, ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg a rhaid i'n holl systemau ffôn awtomataidd fod yn ddwyieithog.

#### Camau a gymerwyd:

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Cyfarchion dros y Ffôn
- Darparu hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn gallu rhoi cyfarchion sylfaenol a darparu gwasanaethau derbynfa yn ein prif leoliadau
- Cyhoeddir croeso i alwadau ffôn Cymraeg yn **Newsline** ers rhifyn mis Mehefin 2017.
- Darparwyd staff â stondinau desg sy'n Ganllawiau Cyfeirio Cyflym
- Mae negeseuon ffôn awtomataidd ar gyfer manau gwasanaeth wedi'u recordio'n ddwyieithog

- Erbyn hyn mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio i'r Ganolfan Gyswllt

### **Cyfarfodydd - Safonau 24, 24A, 27, 27A, 27D, 29 a 29A**

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sut yr ydym yn gwahodd unigolion i gyfarfodydd a phryd y mae'n rhaid i ni gynnig cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Os dymunant, rhaid i ni wedyn drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso'r cyfarfod hwnnw.

Os ydych yn gwahodd mwy nag un unigolyn i gyfarfod, rhaid gofyn i bawb a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, os bydd o leiaf 10% yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, yna rhaid trefnu cyfieithu ar y pryd. Os yw'n llai na 10%, rhaid rhoi gwybod i'r siaradwyr Cymraeg nad yw'n ofynnol ar yr achlysur hwn i ni fodloni eu cais i siarad Cymraeg yn y cyfarfod.

Os bydd y cyfarfod â'r unigolyn o ran ei les, a'i fod yn dymuno siarad Cymraeg, yna rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn i'r unigolyn allu siarad yn ei ddewis iaith. Rhaid cynnal cyfarfodydd lles gyda chyfieithu ar y pryd os bydd unrhyw un sy'n mynychu wedi gofyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Camau a gymerwyd:**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Cyfarfodydd gydag unigolion
- Wrth wahodd unigolion i gyfarfod, mae'n ofynnol i wasanaethau gynnwys brawddeg safonol yn gofyn am eu dewis iaith ac a ydynt yn dymuno defnyddio neu gynnal y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg
- Defnyddio MS Teams ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus sydd bellach â'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd

### **Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus – Safonau 30, 31, 32, 33, 34, 35 a 36**

Rhaid i unrhyw hysbyseb neu hysbysiad sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd/digwyddiadau/gweithgareddau cyhoeddus ddatgan y gellir defnyddio'r Gymraeg.

Rhaid anfon unrhyw wahoddiadau i gyfarfodydd/digwyddiadau/gweithgareddau cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg a rhaid i'r holl ddeunydd a arddangosir yn y cyfarfod cyhoeddus fod yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.

Rhaid gofyn i unrhyw siaradwyr mewn cyfarfodydd/digwyddiadau/gweithgareddau cyhoeddus os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac os felly, rhaid trefnu cyfieithu ar y pryd. Rhaid hysbysu ar lafar i bawb sy'n mynychu cyfarfod cyhoeddus/digwyddiad/gweithgaredd bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a bod cyfieithu ar y pryd ar gael i'r di-Gymraeg.

### **Camau a gymerwyd:**

- TAFLEN FFEITHIAU i staff – Cyfarfodydd Cyhoeddus

- Taflen ffeithiau ar gyfer staff – Cynllunio Digwyddiadau
- Fframwaith Cyfieithu a Dehongli ar waith ers mis Mai 2017 ar gyfer ceisiadau cyfieithu ar y pryd. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gweithio ar ddatblygu System Prynu Deinamig sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd i ychwanegu darparwyr newydd ar unrhyw adeg
- Defnyddio MS Teams ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus sydd bellach â'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd.
- Gofynnwn i bobl roi gwybod i ni am eu dewis iaith, boed yn Iaith Arwyddion Prydain, Cymraeg neu iaith arall, cyn cyfarfod cyhoeddus neu ddigwyddiad, fel y gallwn drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

### **Agendâu, cofnodion a dogfennau cyhoeddus eraill – Safonau 41 a 47**

Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â chynhyrchu'r dogfennau canlynol yn Gymraeg:

- Agendâu a chofnodion i'r Cabinet
- Agendâu a chofnodion ar gyfer Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a'r Cyngor Llawn

Yn ogystal, os cynhyrchir dogfen at ddefnydd y cyhoedd, ac nad yw'n cael ei dal gan unrhyw Safon arall, rhaid ei chynhyrchu yn Gymraeg os yw'r pwnc yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliadau yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg e.e. adroddiadau yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg neu'r iaith Gymraeg.

### **Camau a gymerwyd:**

- Mae llunio agendâu a chofnodion ar gyfer y Cabinet, Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a'r Cyngor Llawn yn Gymraeg yn arfer cyfredol

### **Cyhoeddiadau Cyffredinol – Safonau 42, 43, 44, 45, 46 a 47**

Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â'r canlynol sy'n cael eu cynhyrchu yn Gymraeg os ydynt ar gyfer y cyhoedd neu'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd:

- Trwyddedau, tystysgrifau, pamffledi, cardiau, polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, codau ymarfer neu unrhyw reolau sy'n berthnasol i'r cyhoedd

Rhaid i unrhyw ddatganiad yr ydym yn ei roi i'r wasg fod yn ddwyieithog oni bai bod y datganiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod "argyfwng" fel y'i diffinnir yn Adran 1 - Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Os cynhyrchir dogfen at ddefnydd y cyhoedd, ac nad yw'n cael ei dal gan unrhyw safon arall, rhaid ei chynhyrchu yn Gymraeg os yw'r pwnc yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliadau yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg.

### **Camau a gymerwyd:**

- Mae cynhyrchu trwyddedau, tystysgrifau, pamffledi, cardiau, polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, codau ymarfer neu unrhyw reolau sy'n berthnasol i'r cyhoedd, yn Gymraeg, eisoes yn arfer cyfredol
- Mae'r Tîm Cyfathrebu yn ymwybodol o gyhoeddi datganiadau cyhoeddus

### **Dogfennau Ymgynghori – Safonau 44, 91, 92 a 93**

Rhaid i ddogfennau ymgynghori fod yn ddwyieithog a rhaid iddynt ystyried a cheisio barn am:

1. beth fyddai'r effeithiau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, y byddai'r cynnig yn eu cael ar; neu
2. sut y gellid datblygu'r cynnig neu ei ddiwygio fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar:
  - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Camau a gymerwyd:**

- Mae'r broses Asesu Effaith Integredig yn cynnwys adran benodol ar yr iaith Gymraeg ac ymgynghori, ac yn gofyn a roddwyd ystyriaethau i'r Gymraeg yn ystod y broses ymgynghori
- Mae Rhestr Wirio Iaith Gymraeg mewn Ymgynghoriad wedi'i drafftio fel bod pob swyddog sy'n cynnal ymarferion ymgynghori yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau. Mae cyngor a chefnogaeth ar gael gan y timau Ymgysylltu/Cydraddoldeb a'r Gymraeg

### **Gwefan, Cyfryngau Cymdeithasol a Dyfeisiau Electronig – Safonau 52, 56, 58 a 60**

Rhaid i bob tudalen ar wefan y Cyngor fod yn ddwyieithog, yn gwbl weithredol ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r tudalennau Saesneg. Rhaid i'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar y tudalennau fod yn ddwyieithog.

Rhaid i unrhyw gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n perthyn i'r Cyngor beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhaid i beiriannau hunanwasanaeth beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol e.e. peiriannau tocynnau parcio.

### **Camau a gymerwyd:**

- Cwblhawyd archwiliad o'r wefan gyfan a'i swyddogaeth ym mis Medi 2019.
- Hysbyswyd staff o'r broses ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ddwyieithog ar wefan y Cyngor
- Mae Canllawiau Defnydd Cyfryngau Cymdeithasol yn cynnwys adran ar Safonau'r Gymraeg
- Gofynnwyd i'r Meysydd Gwasanaeth â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol i gydnabod yr angen i gydymffurfio. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac mae'r

adran ar yr iaith Gymraeg yn cael ei chryfhau i gynnwys gwybodaeth am y manau lle mae materion cydymffurfio wedi'u nodi ar hyn o bryd

- Mae unrhyw faterion ar unrhyw dudalennau gwe yn cael eu gweithredu ar frys
- Mae peiriannau parcio yn rhoi'r dewis i bobl ddewis iaith
- Mae archwiliad o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol ar waith ac atgoffir staff am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- Mae llwyfan PublicAccess wedi'i uwchraddio gan yr Adran Gynllunio yn galluogi pobl i chwilio, olrhain a gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio yn Saesneg ac yn Gymraeg
- Mae gwefan newydd ar gam olaf y broses dendro. Bydd y wefan newydd yn hygyrch a bydd hefyd yn ystyried gofynion Safonau Iaith perthnasol

### **Arwyddion Cyhoeddus – Safonau 62, 67, 70, 141, 142 a 143**

Rhaid i arwyddion newydd ac o'r newydd fod yn ddwyieithog a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac mae'n rhaid gosod y Gymraeg felly mae'n debygol o gael ei darllen gyntaf.

### **Camau a gymerwyd:**

- Mae arwyddion newydd ac arwyddion newydd yn cydymffurfio
- TAFLEN FFEITHIAU – Arwyddion
- Mae'r holl waith cyfieithu a dderbynnir yn cael ei ddychwelyd yn y fformat cywir. Mae hyn yn arfer presennol
- **Llawlyfr Safonau'r Gymraeg ar gyfer Arwyddion Gwaith CBSC a** gynhyrchwyd mewn ymateb i nifer y ceisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd ynghylch arwyddion gwaith nad ydynt yn cydymffurfio. Rhannwyd hyn gyda swyddogion ac is-gontractwyr
- Mae arwyddion a ddatblygwyd ar gyfer adeiladau'r Cyngor wedi'u cynllunio gan Dîm Dylunio Graffig mewnol y Cyngor, sy'n cael eu briffio'n llawn ar Safonau'r Gymraeg, ac sy'n anfon proflenni i'r Tîm Cyfieithu cyn i'r arwyddion gael eu creu

### **Ymwelwyr ag Adeiladau – Safonau 64, 65, 65, 65A, 67 a 68**

Rhaid darparu gwasanaeth derbyn dwyieithog yn adeiladau'r Cyngor canlynol ac ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

- Tŷ Penallta
- Llyfrgelloedd Bargoed, Rhisga, Rhymni, y Coed Duon, Caerffili ac Ystrad Mynach
- Canolfan Ymwelwyr Caerffili
- Maenordy Llancaiach Fawr
- Gwasanaethau Cofrestru
- Canolfannau hamdden Caerffili, Heolddu, Trecelyn a Rhisga

Rhaid arddangos arwyddion ar dderbynfeydd sy'n nodi y gellir defnyddio'r Gymraeg. Mae'n rhaid i staff sy'n siarad Cymraeg mewn derbynfeydd arddangos bathodyn yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.



### **Camau a gymerwyd:**

- Mae gwasanaethau mewn derbynfeydd i'r cyhoedd drwy apwyntiad yn unig erbyn hyn. Gofynnir am ddewis iaith ar y cyswllt cyntaf ac mae siaradwr Cymraeg ar gael ar gyfer yr apwyntiad pe bai hynny'n ddewis iaith
- Rhaglen hyfforddi wedi'i chwblhau ar gyfer staff yn y dderbynfa yn Nhŷ Penallta a'r Ganolfan Gyswllt. Mae hyfforddiant pellach yn cael ei gyflwyno ynghyd â chefnogaeth barhaus
- Cymraeg Gwaith - Cwrs ar-lein 10 awr wedi'i gyflwyno i staff ers mis Medi 2018
- Mae pob lleoliad a restrir o dan Safon 64 wedi cael y poster 'Iaith Gwaith' i'w arddangos mewn derbynfeydd sy'n nodi bod gwasanaeth Cymraeg ar gael
- Gwybodaeth ar gael i staff ar dudalen Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar y fewnrwyd
- Mae pob dysgwr a siaradwr Cymraeg wedi derbyn cortyn gwddf neu fathodyn 'Iaith Gwaith'

### **Dyfarnu Grant – Safonau 71, 72 a 72A**

Rhaid i ffurflenni cais am grantiau fod yn ddwyieithog. Rhaid i unrhyw beth a gyhoeddir ynghylch grant ddatgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae hyn yn cynnwys amserlenni a bennir i'w hasesu ac ati.

### **Camau a gymerwyd:**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Grantiau
- Cymeradwywyd [Polisi ar Grantiau Dyfarnu](#) gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Mehefin 2022. Rhannwyd y polisi hwn gyda swyddogion sy'n gweinyddu grantiau, a'i gyhoeddi ar dudalen Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar y fewnrwyd ac ar wefan y Cyngor

### **Cyrsiau Addysg – Safonau 84 ac 86**

Rhaid cynnig cyrsiau addysg yn Gymraeg oni bai bod asesiad o dan Safon 86 wedi'i gynnal.

### **Camau a gymerwyd:**

- Gofyn i bobl a ydynt yn dymuno derbyn y cwrs yn Gymraeg ar adeg y cofrestru neu ymholi ac yna asesu'r galw am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

### **Cyfeiriad Cyhoeddus - Safon 87**

Rhaid i bob cyfeiriad cyhoeddus fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

### **Camau a gymerwyd:**

- Mae profion larwm tân a negeseuon munud o dawelwch yn ddwyieithog
- Gwagio mewn argyfwng – Saesneg yn unig
- Rydyn ni'n gweithio gyda'r Tîm Digwyddiadau i sicrhau bod pob neges annerch cyhoeddus yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf i bob digwyddiad
- Mae negeseuon cyfeiriad cyhoeddus awtomataidd llyfrgelloedd yn cydymffurfio'n llawn

### **Gwneud Polisi – Safonau 88, 89 a 90**

Rhaid i bolisiau newydd, diwygiedig neu adolygedig ystyried yr effaith y bydd y polisi yn ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ni ddylent drin y Gymraeg yn llai ffafriol.

#### **Camau a gymerwyd:**

- Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i weithredu ers 1 Ebrill 2021 ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Gwneud Polisi. Mae'r asesiad effaith nawr yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion roi mwy o ystyriaeth i'r effaith ar y Gymraeg wrth ddatblygu cynigion a pholisïau
- Mae dogfen gyngor arfer da Comisiynydd y Gymraeg wedi'i chyhoeddi ar dudalen y Gymraeg a Chydraddoldeb ar y fewnrwyd i staff ei gweld
- Dogfen gyngor a recordiadau o'r **Seminar: Ystyried yr effeithiau** wedi'u cyhoeddi ar Fewnrwyd ac mae Rhwydwaith Rheolaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth hon

### **Prosesau AD – Safonau 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 112A, 114, 115, 116, 116A, 118, 119**

Rhaid i ni sicrhau bod ein prosesau recriwtio ac Adnoddau Dynol mewnol ar gael yn Gymraeg, lle rydym yn gofyn am ddewis iaith ymgeiswyr a staff, ac yn cyfathrebu â nhw yn yr iaith o'u dewis. I staff, mae hyn yn cynnwys unrhyw ddisgyblaeth, cwynion, prosesau cwyno ac argaeledd rhai Polisiau Adnoddau Dynol yn Gymraeg.

#### **Camau a gymerwyd:**

- Gweler y diweddariad recriwtio yn **Adran 6**
- Mae nifer o ffurflenni a pholisïau Adnoddau Dynol ar gael i staff yn Gymraeg ar y Borthol AD ar y fewnrwyd
- Mae'r Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg eisoes yn cynnal ac yn cofnodi cyfarfodydd un-i-un ac Adolygiadau Datblygu Perfformiad yn Gymraeg gyda staff.

### **Mewnrwyd / Tudalennau Rhyngrwyd - Safonau 122 a 124**

Rhaid i'r dudalen gartref fewnrwyd fod yn ddwyieithog, yn gwbl weithredol a thrin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol. Rhaid i dudalennau Saesneg nodi bod tudalen Gymraeg gyfatebol ar gael, gyda dolen os yw'n berthnasol.

#### **Camau a gymerwyd:**

- Mae mewnrwyd ddwyieithog bellach yn arfer gyfredol. Yn dilyn lansio ein mewnrwyd newydd i staff, rydym wrthi'n mireinio'r tudalennau i sicrhau bod pob tudalen yn gwbl hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Mae adran benodol ar y fewnrwyd ar gyfer gwybodaeth Gymraeg i staff ei chyrru, ynglŷn â Safonau'r Gymraeg, hyfforddiant iaith Gymraeg a gwybodaeth am gyfieithu Cymraeg

- Mae nifer o ffurflenni a pholisiau AD ar gael i staff yn Gymraeg ar Borthol AD ar y Fewnrwyd

### **Hyfforddiant Cymraeg a Chyfathrebu â Staff – Safonau 128, 129, 130, 133, 134 a 135**

Rhaid i ni ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg i staff os caiff ei ddarparu yn Saesneg ar: recriwtio, rheoli perfformiad, cwynion, disgyblu, cynefino, delio â'r cyhoedd, iechyd a diogelwch, ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau, cwynion ac yn ystod gweithdrefnau disgyblu.

Rhaid rhoi cyfleoedd i staff mewn oriau gwaith i dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol ac, i weithwyr sy'n rheoli eraill, i gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. Mae'n rhaid i ni roi gwybodaeth i weithwyr newydd am yr iaith Gymraeg a'r testun neu'r logo i weithwyr sy'n siarad Cymraeg eu defnyddio mewn llofnodion e-bost sy'n nodi eu bod yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg, boed yn rhugl neu fel dysgwr.

Rhaid i fersiwn Cymraeg o fanylion cyswllt mewn negeseuon e-bost a negeseuon Allan o'r Swyddfa fod yn Gymraeg hefyd.

### **Camau a gymerwyd:**

- Taflen ffeithiau ar gyfer staff – AD
- Pe bai unrhyw geisiadau am hyfforddiant yn cael eu derbyn, byddem yn gweithio gyda chynghorau cyfagos i wneud cyrsiau'n hyfyw
- Mae'r rhaglen hyfforddiant Cymraeg flynyddol a ddarperir ers 2001, yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gwahanol i staff, gan gynnwys cyrsiau ar-lein, hunan-astudio, preswyl, wythnosol ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Cyflawnodd 107 o ddysgwyr y cyrsiau hyn yn ystod 2023-2024
- Dylid cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg mewn Pecynnau Ymsefydlu Adnoddau Dynol. Mae'r Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar hyn o bryd yn ymwneud â datblygu Rhaglen Sefydlu newydd ar gyfer dechreuwyr newydd. Maen nhw hefyd wrthi'n trafod datblygu system rheoli dysgu newydd ar gyfer e-ddysgu, gyda'r bwriad bod elfennau o gydraddoldeb a'r Gymraeg yn hanfodol i'r holl staff eu cwblhau
- Mae'r Tîm Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn rhan o'r Rhaglen Ymsefydlu Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer dechreuwyr newydd
- Mae TG wedi rhoi llofnod awtomatig dwyieithog i'r holl staff ar gyfer pob e-bost
- Nid yw TG wedi gallu cyn-boblogi neges e-bost ddwyieithog y tu allan i'r swyddfa, felly crëwyd cardiau stondinau desg i'r holl staff godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad i sicrhau bod eu negeseuon y tu allan i'r swyddfa yn ddwyieithog

### **Arwyddion yn y Gweithle – Safonau 141,142 a 143**

Rhaid i arwyddion newydd ac adnewyddedig fod yn ddwyieithog a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhaid gosod y Gymraeg felly mae'n debygol o gael ei darllen gyntaf.

#### **Camau a gymerwyd:**

- Mae pob arwydd sy'n wynebu'r cyhoedd yn ddwyieithog ac os cynhyrchir rhai newydd neu adnewyddedig mae'r Gymraeg yn gyntaf
- Mae arwyddion a ddatblygwyd ar gyfer adeiladau'r Cyngor wedi'u cynllunio gan Dîm Dylunio Graffig mewnol y Cyngor, sy'n cael eu briffio'n llawn ar Safonau'r Gymraeg, ac sy'n anfon proflenni i'r Tîm Cyfieithu cyn i'r arwyddion gael eu creu

### **Strategaeth y Gymraeg – Safonau 145 a 146**

Mae'n rhaid i ni gynhyrchu a chyhoeddi ar y wefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd yn ehangach yn y fwrdeistref sirol. Rhaid i'r Strategaeth gynnwys –

- (a) targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a
- (b) datganiad yn nodi sut rydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd o gyhoeddi strategaeth (neu o gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

#### **Camau a gymerwyd:**

- Cafodd ail Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd y Cyngor 2022-2027 ei gweithredu o 1 Ebrill 2022. [Cliciwch yma i weld](#)
- Datblygwyd cynllun gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid, sy'n cynnwys meysydd gwasanaethau'r Cyngor a sefydliadau Cymraeg allweddol, drwy Fforwm yr Iaith Gymraeg
- Mae'r Fforwm yn cydweithio ag aelodau Fforwm y Gymraeg mewn Addysg a'r Fforymau Mwy na Geiriau i gyflawni rhai o'r camau allweddol yn y strategaeth

### **Cwynion - Safonau 147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)**

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y cwynion a dderbynnir sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

#### **Camau a gymerwyd:**

- Adroddir yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Gweler **Adran 4 – Cwynion gan y Cyhoedd**
- Ychwanegwyd categorïau cydraddoldeb a'r Gymraeg i'r system gwynion fel y gallwn fonitro os oes gan unrhyw gwynion elfen cydraddoldeb neu iaith Gymraeg. Bydd hyn yn helpu gydag adroddiadau blynyddol ac i nodi unrhyw dueddiadau
- Bydd Rhaglen Gwyno newydd yn mynd yn fyw ym mis Ebrill 2024, lle bydd cwynion a cheisiadau am wasanaeth ar draws y Cyngor i gyd yn cael eu cynnal yn ganolog. Mae'r

rhaglen newydd yn cynnwys opsiwn i ddewis a yw'r Gymraeg neu Gydraddoldeb yn elfennau o unrhyw gwynion a cheisiadau am wasanaeth. Wrth symud ymlaen bydd hyn yn ei gwneud yn haws tynnu adroddiadau i lawr i'w cynnwys mewn adroddiadau blynyddol statudol ar gydraddoldeb a'r Gymraeg

### **Rhoi cyhoeddusrwydd i gydymffurfio – Safonau 161, 167, a 163**

Rhaid i ni gyhoeddi dogfen ar y wefan sy'n nodi'r safonau llunio polisi y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw a sut rydym yn gwneud hynny, a rhaid i hyn fod ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Rhaid i ni gyhoeddi dogfen ar y wefan sy'n nodi'r safonau gweithredol y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw a sut rydym yn gwneud hynny, a rhaid i hyn fod ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Mae'n rhaid bod gennym drefniadau ar waith i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, cyhoeddi'r trefniadau ar y wefan a sicrhau bod y ddogfen ar gael ym mhob swyddfa ar agor i'r cyhoedd.

### **Camau a gymerwyd:**

- Gweler - [Adroddiad Hysbysiad Cydymffurfio CBSC Mehefin 2021](#) ar y wefan
- Hysbysiad Cydymffurfio ar y wefan i ganiatáu delio ag unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd ar eu rhan

### **Sgiliau Iaith Staff – Safonau 151 a 170 (2) (a)**

Rhaid i ni gadw cofnod (yn dilyn asesiad) o nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i gynnwys y lefel sgiliau.

### **Camau a gymerwyd:**

- Yn dilyn gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac fel yr amlinellwyd yn ein hymateb dyddiedig 22 Chwefror 2022, datblygwyd blaengynllun gwaith i fynd i'r afael â nifer o faterion brys yn ymwneud â recriwtio, gan gynnwys cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Mae Awdit Sgiliau Iaith Gymraeg yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2024

### **Hyfforddiant Iaith Gymraeg – Safonau 152, 170 (2) (b) a 170 (2) (c)**

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a chanran cyfanswm y staff a fynychodd gwrs yn Gymraeg. Gweler **Adran 5** yr adroddiad hwn.

### **Recriwtio – Safonau 154, 170 (2) (ch) a 154**

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi:

- (a) Sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- (b) Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth eu penodi i'r swydd
- (c) Sgiliau Cymraeg yn ddymunol
- (d) Nid oes angen sgiliau Cymraeg

### Camau a gymerwyd:

- Adroddir ar Sgiliau Iaith Staff, Darpariaeth Hyfforddiant a Recriwtio Cymraeg bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Gweler **Adrannau 4, 5 a 6** am fanylion

## 2. Hyrwyddo

Er mwyn annog defnydd o'r iaith yn y fwrdeistref sirol, rydym yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau hyrwyddo gyda staff a'r cyhoedd. Drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni'n dewis dyddiadau allweddol i achub ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth o rai o'r negeseuon allweddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

### Diwrnod Shwmae / Su'mae

Yn dilyn cwrs 10 wythnos i staff yng Nghartref Preswyl Tŷ Iscoed, siaradon ni â'r trigolion am yr iaith Gymraeg a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw. Roedd y cwrs yn llwyddiant mawr gyda'r staff a gymerodd ran yn gallu mynegi eu hunain gan ddefnyddio ymadroddion sylfaenol erbyn hyn.



### Mae Gen i Hawl / Defnyddia Dy Gymraeg

Ym mis Rhagfyr, cyflwynon ni gyfres o negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn annog aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio eu Cymraeg gyda staff y cyngor, gan ymgorffori deunyddiau ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg.



Hefyd, cynhalion ni'r Clwb Clebran a gwahodd Coleg Gwent i ymuno â ni ar Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg. Mae'r Clwb yn ein helpu i annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo modd a hefyd gofrestru staff ar gyrsiau. Aethon ni ati i recordio staff yn ystod y digwyddiad yn siarad am bwysigrwydd y Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd a phostio am hyn ar ein cyfryngau cymdeithasol.




## Dydd Santes Dwynwen



Ar Ddydd Santes Dwynwen 2024, cyflwynon ni bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dolenni yn egluro stori Santes Dwynwen ac yn annog aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg.

## Dydd Gŵyl Dewi

Ar 1 Mawrth, cyhoeddodd ni 2 neges ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn gyntaf yn ymwneud â Dydd Gŵyl Dewi a sut y gall pobl gymryd rhan yn ymgyrch genedlaethol #PethauBychain gan gynnwys doleri i fwy o wybodaeth a fideo YouTube.



Roedd yr ail yn ymgorffori'r diwrnod fel rhan o neges ehangach y Cyngor Bwrdeistref Sirol i annog preswylwyr i ailgylchu eu bwyd.



## Cyfathrebu â Phreswylwyr - E-bost yr Holl Staff - Gwybodaeth bwysig am gyfieithu Cymraeg a Chanllaw Arfer Da i Gyfathrebu â Phreswylwyr

Ym mis Chwefror, anfonwyd e-bost at yr holl staff yn atgoffa staff o'u cyfrifoldebau wrth gyfathrebu â phreswylwyr mewn perthynas â chynhyrchu cyfathrebiaeth hygyrch a dwyieithog. Rhannwyd gwybodaeth bellach hefyd gyda staff ynghylch ceisiadau am gyfieithiadau Cymraeg a'r amserlenni i'w hystyried wrth gynllunio darnau mawr o waith, y byddai angen eu cyfieithu cyn eu cyhoeddi. Mae pob canllaw o'r natur hwn ar gael i staff ar Fewnrwyd y Cyngor.

Mae gan Gyngor Caerffili ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sy'n golygu (yn fyr) bod rhaid i bob dogfen y mae'r Cyngor yn ei chynhyrchu ar gyfer y cyhoedd (gan gynnwys ysgolion) yn gyffredinol fod yn ddwyieithog.

Rhaid i ddogfennau sy'n darparu gwybodaeth gyswilt y cyngor hefyd ddarparu rhif ffôn A chyfeiriad e-bost; mae hyn yn golygu bod dulliau cyfathrebu yn hygyrch i bawb.

I gael gwybodaeth fanwl am geisiadau cyfieithu, terfynau amser, Safonau'r Gymraeg a gofynion hygyrchedd, ewch i'r tudalennau Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar fewnrwyd y staff:





Mae'r "Cyfathrebu â Phreswylwyr - Canllaw Arfer Da" yn ddogfen ganllaw sy'n darparu gwybodaeth a chyngor pwysig i staff ar ble mae cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a rheoliadau hygrychedd o bwys. Hysbyswyd staff bod yn rhaid ystyried y rhain wrth baratoi dogfennau a gwybodaeth y Cyngor, a hefyd wrth gyfathrebu â'n preswylwyr.

## Pride Caerffili

Ym mis Mehefin 2023, cynhaliodd Cyngor Caerffili y digwyddiad balchder cyntaf dan arweiniad y cyngor yng Nghymru, yng nghanol tref Caerffili.

Arweiniwyd y digwyddiad gan y Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg, ynghyd â nifer o feysydd gwasanaeth y cyngor, Cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill. Roedd pwyslais mawr ar sicrhau bod y digwyddiad yn ddwyieithog, o'r brandio, agendâu'r gweithgorau dwyieithog, a hyd yn oed cael arweinydd Cymraeg ei hiaith ar y brif lwyfan yn ystod y digwyddiad.

Roedd Mr. Urdd hefyd yn bresennol yn y digwyddiad gan ddangos cefnogaeth, ac roedd safle'r digwyddiad yn orlawn o ymwelwyr o bob rhan o'r sir a thu hwnt. Trefnwyd ardal ieuentid yn y bandstand, gyda nifer o ysgolion, gan gynnwys Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yn perfformio. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddangos bod gan y Gymraeg le yn y gymuned LHDTC+.



## Gwasanaethau a Diwrnodau Gyrfaoedd

### Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr



Yng Nghyngor Caerffili, rydym yn ymfalchïo yn ein partneriaethau wrth weithio â sefydliadau allanol. Ers blynyddoedd bellach, rydym wedi gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i fynd i ysgolion a chynnal gweithdai a gwasanaethau ar y Gymraeg yn y gweithle.

Eleni, cafodd ein gwaith ei gydnabod gan sefydliad Gyrfa Cymru drwy gael ein henwebu a'n rhoi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr. Er na chipion ni'r wobwr, roedd yn gamp fawr cael ein cydnabod am y gwaith rydym wedi'i wneud dros y blynyddoedd ac yn parhau i'w wneud mewn nifer o ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol.

Dros y flwyddyn, gwnaethon ni nifer o gyflwyniadau i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 ar draws nifer o ysgolion yn esbonio sut mae'r iaith yn cael ei defnyddio fel rhan o waith dyddiol. Roedd yr holl sesiynau hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd gyrfaoedd a phrentisiaethau o fewn y Cyngor, yn aml yn rhoi cyfle i'r disgyblion ofyn cwestiynau neu ddefnyddio eu dyfeisiau i chwilio ar wefan y Cyngor am gyfleoedd swyddi a phrentisiaethau cyfredol.

### Ysgol Gyfun Martin Sant

Ym mis Gorffennaf, mynychodd yr Uwch Swyddog Polisi a'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg ddiwrnod yn Ysgol Martin Sant i gymryd rhan mewn digwyddiad carwsél a oedd yn cynnwys disgyblion yn symud o gyflogwr i gyflogwr, gan ofyn cwestiynau am y defnydd o'r Gymraeg a'i phwysigrwydd yn y gweithle.



### Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Mae gan y tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg berthynas hirsefydlog ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a gofynnir i ni yn aml i gynnal gwasanaethau a diwrnodau gyrfaoedd. Yn haf 2023, aethon ni i mewn i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda disgyblion Blwyddyn 11 ar Stereoteipio a Dangos Parch, oedd yn cynnwys elfennau o misogyny. Ym mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024 cynhalion ni hefyd wweithdy gyrfaoedd gyda Chyngor Caerffili gyda myfyrwyr Blwyddyn 10, gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd eu sgiliau Cymraeg i'r Cyngor a darpar gyflogwyr eraill.

## Balchder Cwm Rhymni

Hoffem longyfarch ein disgyblion, staff a theluoedd anhygoel eu brwdfrydedd tuag at ein dathliadau Balchder blynyddol. Gwisgodd ein staff a disgyblion yn fôr o liwiau a daeth ein ffrind a'n cyn gydweithiwr, Mr Geraint Ashton (sydd bellach yn gweithio yn Nhŷ Penallta), â ffrâm hunlun Pride i'r ysgol. Diolch i bob un o'n tim lles a gynhaliodd stondinau crefftau, gweithgareddau a gwasanaethau ar gyfer ein disgyblion er mwyn i ni gyd ddathlu ein gwahaniaethau, ein hawliau a'n rhyddid i ddewis.

Diolch hefyd i Miss Anwen Evans a'i thim gwych o ddisgyblion o'r sioe gerdd ysgol 'Nôl i'r 80au' am berfformio yn nathliadau Pride cyntaf Caerffili. Roedd eu perfformiadau o ganeuon poblogaidd yr 80au yn bleser i wyllo. Diolch i'r holl deuluoedd a ddaeth i gefnogi'r plant a'r staff; roedden ni wrth ein boddau yn gweld cymaint ohonoch chi yng nghanol y dref. Mae Miss Evans yn gadael yr haf hwn a dymunwn y gorau iddi yn ei rôl newydd.



**Anwen Cullinane is with Geraint Ashton.**  
7 Jul 2023 · 🌐

Wedi treulio heddi gyda Blwyddyn 10 @Cwmrhymni yn trafod ystrydebu a phwy a beth sy'n ein dylanwadu [Caerphilly County Borough Council](#) #cydraddoldeb

Spent today with Year 10 at Ysgol Gyfun Cwm Rhymni discussing stereotyping and who and what influences us #Equality



## Ysgol Uwchradd Islwyn ac Ysgol Gymunedol Sant Cenydd



Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd y tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg wasanaeth yn Ysgol Uwchradd Islwyn gyda disgyblion blwyddyn 11 ac eto ym mis Mawrth 2024 yn Ysgol Gymunedol Sant Cenydd gyda disgyblion blwyddyn 10. Gwnaed y gwaith hwn trwy Gyrfa Cymru yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle, yn enwedig mewn swyddi yng Nghyngor Caerffili. Mae pob un o'r disgyblion hyn yn astudio cwrs byr Cymraeg o leiaf ar lefel TGAU.

### Ystadegau y Gymraeg 2023-2024

Nifer y ceisiadau cyfieithu a dderbyniwyd.....	4,294
Nifer y ceisiadau cyfieithu a anfonwyd yn allanol.....	60
Nifer y geiriau a gyfieithwyd yn fewnol.....	2,175,562
Nifer y geiriau a gyfieithwyd yn allanol.....	632,856
Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg.....	96
Nifer yr Ymchwiliadau Iaith Gymraeg ers 2016.....	13

### 3. Cwynion gan y cyhoedd

#### Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg

Rydym yn defnyddio'r adran hon o'r adroddiad i fanylu ar unrhyw ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ystod 2023-2024, cawsom **0** ymchwiliad newydd am y bumed flwyddyn yn olynol.

Gall aelodau'r cyhoedd weld Gweithdrefn Gwynion y Cyngor ar gyfer delio â chwynion a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.caerffili.gov.uk/my-council/strategies,-plans-and-policies/equalities/welsh-language-standards?lang=cy-gb>

#### Cwynion a cheisiadau am wasanaeth

Cwynion corfforaethol yw'r rhai sy'n deillio o fethiant proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Cwynion yw'r rhain y gellid eu hanfon ymlaen yn y pen draw at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynydd y Gymraeg, er enghraifft.

Ymdrinnir â materion cod ymddygiad sy'n ymwneud ag ymddygiad neu agwedd staff drwy brosesau mewnol y Gwasanaethau Pobl. Fodd bynnag, mae cydraddoldeb a chwynion Cymraeg yn rhywbeth o hybrid, gan y gallai methiant proses fod o ganlyniad i agweddau neu farn aelod o staff tuag at grŵp penodol er enghraifft.

Mae gan **Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2024-2028** amcan penodol, sy'n ymrwymo'r Cyngor i ddefnyddio ei geisiadau gwasanaeth a'i ddata cwynion i:

- **Amcan Cydraddoldeb 1** – Mae meysydd gwasanaeth yn ymateb i bob cwyn sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb mewn modd amserol, ac yn dysgu oddi wrthynt

Yn ystod 2023-2024, derbyniwyd **0** cwyn a **2** gais am wasanaeth yn ymwneud â'r Gymraeg. Roedd y **ddau** gais am wasanaeth yn cynnwys y canlynol:

Na.	Manylion y Ceisiadau am Wasanaeth	Datrysiad
SR3	Roedd byrddau arddangos Cymraeg ar gyfer digwyddiad ymgysylltu Hwb Hamdden a Lles 2026 yn anghywir.	Cysylltodd ymgynghorwyr i gywiro'r teitlau ac i sicrhau bod yr holl destun Cymraeg yn cael ei brawfddarllen gan y Tîm Cyfieithu cyn ei gyhoeddi.
SR5	Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch uniaith Saesneg ynghylch rheoli meddyginiaethau, a rennir gan yr ysgol gyda rhiant mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.	Ni ddylai'r ysgol fod wedi rhannu'r wybodaeth hon gyda'r rhieni. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn cyfieithu'r holl bolisiau a gweithdrefnau a byddant yn rhannu gyda phob ysgol unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

**Cwynion a Cheisiadau am Wasanaeth yn ôl Cyfadrn**

<b>CYFADRAN</b>	<b>CWYNIION</b>	<b>CEISIADAU AM WASANAETH</b>
Economi a'r Amgylchedd	0	1
Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	0	1
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	0	0
<b>CYFANSYMIAU</b>	<b>0</b>	<b>2</b>

**4. Sgiliau Iaith Staff**

Mae'r gallu i gofnodi sgiliau Cymraeg o ran data a dadansoddiad staff yn rhan annatod o'r system gyflogres o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dangosir ffigurau diwedd y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2023 isod ac ar y dudalen nesaf. Mae'r lefelau sgiliau yn cael eu mesur yn unol â'r canllawiau sgiliau iaith a ddarperir gan Gymdeithas y Profwyr Iaith yn Ewrop (ALTE). Ar dudalennau 29-30 yr adroddiad hwn, gwelwch fanylion sgiliau iaith staff fesul mesur maes gwasanaeth ar raddfa o 5 yn 'Hyfedredd' i lawr i 'Dim Sgiliau'.

<b>Lefel 5</b>	<b>Lefel 4</b>	<b>Lefel 3</b>	<b>Lefel 2</b>	<b>Lefel 1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>
Hyfedredd	Uwch	Canolradd	Sylfaen	Mynediad	-

Ar adeg adrodd y llynedd, roedd cyfanswm y staff a'r siaradwyr Cymraeg o fewn y sefydliad fel a ganlyn o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd hon:

**Cyfansymiau'r Cyngor 2022-2023****Cyfansymiau'r Cyngor 2023-2024**

<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>	<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
<b>8535</b>	<b>2100</b>	<b>24.6</b>	<b>8670</b>	<b>2258</b>	<b>26.04</b>

O gymharu â'r llynedd, eto rydyn ni wedi cofnodi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg; roedd hyn ar draws pob cyfadrn.

**PROFFIL IEITHYDDOL Y GWEITHLU - GALLU YN Y GYMRAEG YN ÔL MAES GWASANAETH A RHUGLDER AR 31 MAWRTH 2024****i) FFIGYRAU STAFF CYFFREDINOL**

<b><i>Economi a'r Amgylchedd</i></b>	<b>2022-2023</b>			<b>2023-2024</b>		
	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
Isadeiledd	<b>974</b>	123	12.62	<b>928</b>	125	13.46
Gwasanaethau Eiddo	<b>68</b>	22	32.35	<b>63</b>	20	31.74

<i>Economi a'r Amgylchedd</i>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	<b>813</b>	148	18.2	<b>781</b>	205	26.24
Adfywio a Chynllunio	<b>323</b>	68	21.05	<b>350</b>	70	20.0
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>2149</b>	<b>355</b>	<b>16.51</b>	<b>2099</b>	<b>417</b>	<b>19.86</b>

	<b>2022-2023</b>			<b>2023-2024</b>		
<i>Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol</i>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
Cyllid Corfforaethol	<b>167</b>	28	16.76	<b>167</b>	25	14.97
Gwasanaeth Cwsmeriaid a Digidol	<b>153</b>	41	26.79	<b>150</b>	43	28.66
Dysgu, Addysg a Chynhwysiant	<b>456</b>	101	22.14	<b>483</b>	114	23.60
Y Gyfraith a Llywodraethu	<b>64</b>	16	25.00	<b>67</b>	17	25.37
Gwasanaethau i Bobl	<b>105</b>	30	28.57	<b>112</b>	36	32.14
Ysgolion	<b>3335</b>	1131	33.91	<b>3310</b>	1166	35.22
Gwasanaethau Trawsnewid	<b>787</b>	171	21.72	<b>870</b>	196	22.52
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>4851</b>	<b>1461</b>	<b>30.11</b>	<b>4935</b>	<b>1538</b>	<b>31.16</b>

	<b>2022-2023</b>			<b>2023-2024</b>		
<i>Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai</i>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
Gwasanaethau i Oedolion	<b>1080</b>	148	13.70	<b>1073</b>	148	13.79
Gofalu am Gaerffili	<b>26</b>	7	26.92	<b>34</b>	9	26.47
Cartrefi Caerffili	<b>491</b>	68	13.85	<b>537</b>	78	14.52
Gwasanaethau i Blant	<b>335</b>	109	32.53	<b>337</b>	114	33.82
Tîm Datblygu'r Gweithlu ar y Cyd	<b>3</b>	1	33.33	<b>2</b>	0	0.0
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>1929</b>	<b>330</b>	<b>17.1</b>	<b>1974</b>	<b>349</b>	<b>17.67</b>

## NODIADAU

- Nid yw'r ffigurau fesul maes gwasanaeth ar gyfer **Cyfanswm y Staff** a **Siaradwyr Cymraeg** yn gyfartal â'r cyfanswm cyffredinol fesul Cyfadran oherwydd bod gan rai aelodau o staff fwy nag un swydd yn y sefydliad a bod y swyddi hynny o fewn meysydd gwasanaeth gwahanol.
- Yn unol ag adroddiadau blaenorol, mae'r ffigurau yn **4i)** uchod yn gyfansymiau nifer y bobl fesul cyfadran sydd wedi cwblhau'r ffurflen Sgiliau Ieithyddol gan nodi sgiliau Iaith Gymraeg.

- Mae'r ffigyrau a ddangosir yn **4ii)** i **4iv)** sy'n dilyn, yn cyfeirio at lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg fesul maes gwasanaeth ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â'r cyfansymiau a ddangosir yn **4i)** oherwydd er enghraifft yn yr isadran Cyllid Corfforaethol (yr ail adran isod yn **4ii)**, mae'r golofn "Lefel 4" yn cyfeirio at aelod staff sy'n gallu darllen, siarad, deall ac ysgrifennu at Lefel 4, ac nid tri aelod staff gwahanol.

## ii) Economi a'r Amgylchedd

Isadeiledd	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwranddo / Siarad	12	1	2	8	88	11	3
Deall	9	5	4	9	74	16	8
Ysgrifennu	10	2	5	6	50	42	10
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>125</b>						

Gwasanaethau Eiddo	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwranddo / Siarad	0	0	1	2	16	1	0
Deall	0	0	1	3	13	3	0
Ysgrifennu	0	0	0	2	7	11	0
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>20</b>						

Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwranddo / Siarad	17	9	13	31	130	5	0
Deall	19	14	13	24	116	17	2
Ysgrifennu	18	5	16	32	85	48	1
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>205</b>						

Adfywio a Chynllunio	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwranddo / Siarad	9	1	2	16	36	6	0
Deall	9	4	2	9	38	6	2
Ysgrifennu	9	1	2	10	30	14	4
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>70</b>						

## iii) Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Gwasanaethau i Oedolion	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwranddo / Siarad	11	8	2	10	106	11	0
Deall	12	12	1	5	92	23	3
Ysgrifennu	12	8	1	10	50	62	5

<b>Gwasanaethau i Oedolion</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>148</b>						

<b>Gofalu am Gaerffili</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	1	0	0	0	7	1	0
<b>Deall</b>	1	0	0	0	8	0	0
<b>Ysgrifennu</b>	1	0	0	0	4	4	0
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>9</b>						

<b>Cartrefi Caerffili</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	3	4	7	4	57	3	0
<b>Deall</b>	3	6	4	1	41	19	4
<b>Ysgrifennu</b>	2	4	6	2	25	35	4
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>78</b>						

<b>Gwasanaethau i Blant</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	6	3	6	6	87	6	0
<b>Deall</b>	8	7	2	7	72	16	2
<b>Ysgrifennu</b>	6	5	3	5	58	34	3
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>114</b>						

<b>Tîm Datblygu'r Gweithlu ar y Cyd</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	0	0	0	0	0	0	0
<b>Deall</b>	0	0	0	0	0	0	0
<b>Ysgrifennu</b>	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>0</b>						



## iv) Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol

<b>Cyllid Corfforaethol</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	0	1	0	2	20	2	0
<b>Deall</b>	0	1	0	2	17	5	0
<b>Ysgrifennu</b>	0	1	0	2	11	10	1
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>25</b>						

<b>Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	3	0	3	2	34	1	0
<b>Deall</b>	3	3	1	3	25	5	3
<b>Ysgrifennu</b>	4	1	1	0	22	13	2
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>43</b>						

<b>Dysgu, Addysg a Chynhwysiant</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	9	4	0	11	89	1	0
<b>Deall</b>	10	2	4	4	85	7	2
<b>Ysgrifennu</b>	8	3	2	6	61	31	3
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>114</b>						

<b>Y Gyfraith a Llywodraethu</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	0	1	1	2	12	0	1
<b>Deall</b>	1	1	1	2	9	2	1
<b>Ysgrifennu</b>	0	2	0	3	8	3	1
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>17</b>						

<b>Gwasanaethau i Bobl</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	0	0	0	6	28	2	0
<b>Deall</b>	0	2	1	2	27	4	0
<b>Ysgrifennu</b>	0	0	1	4	19	12	0
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>36</b>						

<b>Ysgolion</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwrando / Siarad</b>	201	48	41	235	614	22	5
<b>Deall</b>	194	81	93	169	530	64	35
<b>Ysgrifennu</b>	203	37	48	208	400	222	48

<b>Ysgolion</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>1166</b>						

<b>Gwasanaethau Trawsnewid</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
<b>Gwranddo / Siarad</b>	11	11	4	19	137	13	1
<b>Deall</b>	13	15	8	17	113	29	1
<b>Ysgrifennu</b>	13	4	8	17	58	88	8
<b>Cyfanswm Staff</b>	<b>196</b>						

## 5. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg

Mae Cyngor Caerffili wedi darparu cyrsiau Cymraeg sgysiol i staff ac aelodau etholedig ers 2001. Mae cyrsiau hefyd ar gael i aelodau o'r cyhoedd ac aelodau staff o sefydliadau partner i fynychu. Mae'r cyrsiau'n amrywio o gyrsiau blasu sylfaenol i ddechreuwyr i gyrsiau sy'n darparu ar gyfer y rhai sydd bellach yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, symudwyd pob cwrs i gael ei gynnal ar-lein; mae hyn yn ei dro wedi arwain at y rhan fwyaf o'r gwersi yn parhau i gael eu cynnal ar-lein, gyda nifer fach o staff yn mynychu gwersi yn bersonol.

Rydyn ni'n cynnal sesiynau hyfforddiant mewnol gan gynnwys cyrsiau blasu i staff sy'n amrywio o ynganu ardaloedd lleol a theitlau swyddi i gyfarchion sylfaenol gan gynnwys hoff bethau a chas bethau.

Mae'r data ar gyfer y cyrsiau Cymraeg a gynigir ac a fynychwyd gan staff CBS Caerffili ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-2024 fel a ganlyn:

<b>CWRS CYNNIG</b>	<b>NIFER Y STAFF SY'N MYNYCHU</b>
Cyrsiau Blasau	55
Cyrsiau Blwyddyn Lefel Mynediad	18
Cyrsiau Blwyddyn Lefel Sylfaen	9
Cyrsiau Blwyddyn Lefel Canolradd	6
Cyrsiau Blwyddyn Lefel Uwch	2
Cyrsiau Gloywi	2
Tynnu o'r Cwrs	4

Mae Cyngor Caerffili yn falch o gefnogi staff mewn ystod eang o gyrsiau Cymraeg drwy wefan Dysgu Cymraeg. Mae'r cyrsiau'n cynnwys cyrsiau blwyddyn o hyd, sy'n para rhwng 30 a 32 wythnos; cyrsiau ar-lein, modiwlau hunan-astudio 10 awr; ysgolion haf a phreswyl; a chyrsiau blasu ac atodol, pob un yn amrywio o Lefel Mynediad i lefel Gloywi.

**Ffigurau Staff Caerffili – 2018-2024**

<b>Blwyddyn Academaidd</b>	<b>Cyrsiau blwyddyn</b>	<b>Cyrsiau Blasu ac Atodol</b>	<b>Cyfanswm Nifer y Dysgwyr</b>	<b>(Nifer a dynnodd o'r cwrs)</b>
2018 – 2019	53	91	144	<b>(6)</b>
2019 – 2020	62	185	223	<b>(0)</b>
2020 – 2021	27	219	246	<b>(2)</b>
2021 – 2022	35	-	35	<b>(1)</b>
2022 – 2023	50	11	61	<b>(5)</b>
2023 - 2024	41	55	96	<b>(4)</b>
<b>CYFANSYMAU</b>	<b>268</b>	<b>561</b>	<b>805</b>	<b>(18)</b>

Cynyddodd cyfanswm nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn ariannol hon i 96 o 61 y llynedd. Mae hyn yn cyd-fynd â ni yn newid y ffordd y mae staff yn cael cynnig cyrsiau ac yn gweithio'n agosach gyda'r Tîm Cyflogadwyedd i gynnig ystod eang o gyrsiau blasu i bob aelod o'r tîm. O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae gennym bellach broses gofrestru symlach o lawer sydd wedi helpu i leihau ein hamser gweinyddol.

Gan weithio'n agos gyda'r ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gall staff ddechrau cwrs Cymraeg ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, ac fel y nodwyd, mae cyrsiau uchod yn amrywio o ran arddull a lleoliad cyflwyno. Mae rhai staff hyd yn oed wedi dilyn cyrsiau dwys wythnos o hyd yn Nant Gwrtheyrn ym Mhen Llŷn.

Er mwyn annog staff i fynychu cyrsiau ymhellach, rydyn ni'n cynnal 'Clwb Clebran' (clwb sgwrsio) i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg, ddod at ei gilydd ac i greu amgylchedd croesawgar i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae'r rhwydwaith o staff yn cefnogi ei gilydd yn y gweithle, ac yn helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle.

Yn ystod 2023-2024, cafodd staff 2 gyfle i fynychu cwrs Ymwybyddiaeth y Gymraeg, a ddenodd **11** o fynychwyr ar draws y ddwy sesiwn. Rhaid darparu'r cwrs hwn ar gyfer staff yn unol â Safon 132:

- Mae'n rhaid i chi ddarparu cyrsiau hyfforddi fel bod eich gweithwyr yn gallu datblygu –
- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru);
  - dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
  - dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Gall y cyrsiau Ymwybyddiaeth Gymraeg fod yn effeithiol iawn wrth newid agweddau ac archwilio'r pwyntiau canlynol:

1. Pam bod angen i ni roi sylw i'r Gymraeg?
2. Beth sydd angen i ni ei wybod am yr iaith a'i siaradwyr?
3. Sut gallwn ni weithredu mewn ffordd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg?

Rhoddodd y staff a fynychodd y sesiynau adborth cadarnhaol, ac mae dyfyniad gan un aelod o staff isod:

Craff iawn ac wedi'i anelu yn y ffordd iawn i bawb a fynychodd, y rhai sydd â pheth dealltwriaeth a'r rhai nad oes ganddynt fawr ddim dealltwriaeth o'r iaith neu ddim dealltwriaeth o gwbl ohoni. Fe wnes i fwynhau'r sesiwn hon yn fawr iawn ac mae wedi gwneud i mi fod eisiau dysgu mwy.

Yn unol â Safon 128, rhaid i'r cyngor ddarparu hyfforddiant i staff drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol:

Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg yn y meysydd canlynol, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg –

- (a) recriwtio a chyfweld;
- (b) rheoli perfformiad;
- (c) cwynion a gweithdrefnau disgyblu;
- (ch) ymsefydlu;
- (d) ymdrin â'r cyhoedd; a
- (dd) iechyd a diogelwch.

Ni dderbyniwyd ceisiadau gan staff i unrhyw un o'r cyrsiau rhestredig uchod gael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, felly nid oes ffigurau hyfforddi staff wedi'u cofnodi. Mae'r wybodaeth uchod yn cael ei chyhoeddi yma i ddarparu parhad gydag adroddiadau blaenorol.

## 6. Recriwtio i swyddi gwag

Cafodd cyfanswm o **685** o swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd ers 31 Mawrth 2023 eu categoreiddio fel swyddi lle:

- (i) Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol **9**
- (ii) Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth eu penodi i'r swydd **13**  
Mae cyrsiau hyfforddiant Cymraeg wedi bod ar gael i'r holl staff ac aelodau etholedig am ddim ers blynnyddoedd academaidd 2001-2002 (gweler Adran 5)
- (iii) Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol **663**
- (iv) Nid oedd angen sgiliau Cymraeg **0**

Cynhelir yr Aseidiadau Sgiliau Iaith Gymraeg mewn perthynas â swyddi gwag neu swyddi newydd fel sy'n ofynnol gan Safon 136, ac maent wedi'u cofnodi gan Adnoddau Dynol ers

mis Hydref 2016. Yna mae'r asesiad a'r dystiolaeth ategol yn ffurfio rhan o'r achos busnes sydd ei angen i gael caniatâd i lenwi swydd wag neu greu un newydd.

Cwblheir Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd wag neu newydd, sy'n cael ei hysbysebu fel Cymraeg yn ddymunol fel gofyniad safonol. Mae'r asesiad a wneir yn penderfynu a ddylid hysbysebu unrhyw swyddi newydd neu wag fel rhai Cymraeg hanfodol, yn unol â rôl y swydd a'r cyswllt â'r cyhoedd.